**Marwolaeth y Cyfiawn**

Trannoeth yr oedd yn llawer gwannach, a dywedodd wrth mam: 'Yr wyf bron myned, Becca fach. Byddwch mor dawel ag y medrwch ar fy ôl oblegid fe fydd marw yn elw i fi. Llafuriwch chwithau am fod yn barod. Peidiwch â gadael i ofidiau y byd flino gormod arnoch. Ymdrechwch fod bob amser yn dawel, ac yn barod i farw. Yr wyf yn gobeithio y bydd i Anna a chwithau gyd-dynnu yn dda ar ôl i mi fyned.'

Y noswaith cyn iddo farw yr oeddwn i a Matti fy chwaer yng nghyfraith, a Beni yr Allt Goch, a William Bwlch Gwyn yn ei gwarchod, a thuag un o'r gloch y boreu ni glywem ganu gwan peraidd am ddwy neu dair munud o amser, rywle ger llaw i ni, ond nis gallem ddweud pa le'r oedd, na phwy oedd yn canu, ond yr oedd yn swnio yn hyfryd iawn. Y mae Beni yr Allt Goch yn credu taw angylion oedd yn canu, ac y mae wedi dweud hynny wrth lawer. Trannoeth yr oedd yn gwanhau yn raddol hyd tua dau o'r gloch, pan ddywedodd wrthyf: 'Mae yn dywyll iawn!'

'Ydyw hi nhad?' meddwn innau. 'Ydyw, merch i,' meddai yntau, 'ond dyma'r goleu yn dod! Dyna Iesu'n dod! O Iesu Annwyl!' Dyna y gair olaf ddywedodd, ac yr oedd wedi tynnu yr anadl olaf cyn ben munud. Bu farw ar y dydd cyntaf o fis Awst, a chladdwyd ef ar y trydydd. Yr oedd yna angladd lluosog anghyffredin, a phawb yn teimlo yn alarus ar ei ôl, ac yn rhoddi gair da iddo. Yr oeddem wedi paratoi digon o fwyd, a chacennau, a gwin ebilon ar gyfer pawb; ac y mae'r holl gymdogaeth yn ein canmol am baratoi popeth mor anrhydeddus. Pregethodd Mr Lewis yn yr angladd yn doddedig iawn oddi wrth y geiriau, 'Mi a ymdrechais ymdrech deg, mi a orffennais fy ngyrfa, mi a gedwais y ffydd'. Dywedodd ei fod wedi colli Aaron oedd yn arfer dal ei ddeheulaw i fyny. Adroddodd am drywydd yr hen dadau yn amser yr erledigaeth, a bod fy nhad yn un o grefyddwyr yn amser yr erledigaeth, a choffaodd am ei ffyddlondeb fel Cristion, a'i dystiolaeth ei fod yn myned i'r nefoedd, nes oedd pawb yn colli y dagrau.

***Anna Beynon, Golygydd, D. Elwyn Davies***